# 10 Ways The Child's Voice Can Help Shape Your Setting/ Ffordd y Gall Llais y Plentyn Helpu i Lunio eich Lleoliad

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

**Article 12 UNCRC (respect for the views of the child)**
**Every child has the right to express their views, feelings and wishes in all matters affecting them, and to have their views considered and taken seriously.**

As adults, we often assume we need to make all of the decisions for children but how do we know our decisions are what children would choose? When providing a childcare or playwork provision, how do we know that what is on offer is as exciting for the child as us adults may think it to be? Has anyone actually asked the children?

Consider the different elements of your setting – snack time, play opportunities, activities, resources, equipment, staff, the room, outside space, funding applications, routine, pick up times – how many of these things do children have a say in?

Research and studies have proven that when children are encouraged to participate in decisions that affect them, they feel valued, listened to and empowered. Through participation, children's confidence and self-esteem can grow as they learn how to problem solve, compromise, express their needs and ideas and respect other's ideas and views. Encouraging children from a young age to participate in decision making can help to develop and embed these skills for life.

For childcare and playwork provisions, it is important to value participation and see it as a method to gain an insight into how children view the provision and ensure the service provided is meeting the children's needs.

Seeing participation as a process rather than a single consultation ensures that as a provider you are continuously reviewing your service offered and embedding the importance of the child's voice within your setting.

Placing the child's voice at the heart of your provision, demonstrates to children that they are listened to and will encourage them to engage whilst feeling valued and respected.

Think about the benefits to your Setting. How do you know the children enjoy attending? How do you know they enjoy snack or the activities you provide? What would make it better? The only way to really know is to ask. Here are 10 ways to help you get started:

1. Children's views – Children's views should be something that are heard all year round not just as an annual exercise; it can be in the form of a planned activity when you want the children to share their views on something in particular, or it can be as frequent as deciding what snack to have or game to play. Create suggestion boxes, or an ideas wall for children to post their views. Keep it open for all topics or ask a particular question - do they like club, resources, equipment, what don't they like? It is important that children feel able to express views of likes and dislikes at any time as opposed to needing a particular place or time to share. When consulting on a particular topic, remember to tell the children why you are asking and ensure you feed back to children, being honest about what can or can't be changed. You can find some useful activities and ideas within our Play Learn and Grow Healthy resource pack and in Step 10 of our Stepping Out pack available for all members on our website at https://www.clybiauplantcymru.org/members.asp
2. Club Rules – Club rules are a great way for children to discuss and agree how they think their club should look and what is acceptable or unacceptable behaviour within

their club. Support them if needed but try and take a back seat and allow them to discuss and agree between them. Some children may not feel confident to speak up so introduce techniques such as 'pass the stick' where only the person holding the stick can talk, or suggest writing ideas on post it notes rather than shouting out.

3. Order of the day - does your setting follow a strict daily routine or do you allow for flexibility? It can be useful to plan and feel organised but consider allowing the children to choose the order of the day. Start by asking children to vote as they arrive for which snack will be on offer, or which group game to play. Extend this by asking the children to plan the week ahead by choosing themes, activities and snacks for the week. By offering children the chance to 'design' the club they will learn about decision making and making choices whilst taking ownership for their club and how it looks. As a Setting you will can also be sure that children will be looking forward to attending!
4. Children's feelings – how do they feel? Asking children how they feel on arrival or throughout the session allows children to express feelings and emotions. It will make them feel valued, allow you to support where needed and might even give you an indicator of how children are feeling about coming to club? Remember, you may be the only adult in the child's day to have the time to listen.
5. Older children – Older children may be more difficult to engage with at times and may appear to be bored, so try introducing responsibilities such as helping to serve snack, leading on activities and group games. You could even ask them to lead on any consultations you may have – children may answer more honestly to another child than they would to an adult. Ask them what they would like from the setting, what their experiences are and what could it make it more appealing to their age group.
6. Looking for staff? Clubs often forget that children can be involved in staff recruitment. Ask them what they would like from a new playworker and what qualities they should have. Draw the outline of a person on a piece of paper and ask them to write what they think are important qualities in a Playworker. Add questions to the application form from the children. Involve them in the shortlisting process and even at the interviews. Support them to prepare any questions they may have and seek their opinions in making the final decision. You may also consider inviting job applicants into your Setting for a taster session as part of the interview – perfect opportunity for children to ask questions and 'consider' the best candidate for the job!
7. How involved are Headteachers, Managers or Committee Members in listening to the children's views of the club? Some play theorists suggest that the playing child should influence all decisions around provision such as opening times or routines, staffing, decisions often made by those not directly involved in the day to day running of the club. Invite those decision makers into the club to discuss the changes being made with the children and allow the children to give them feedback. This can be done as a group or as the children play.
8. Snack time – how involved are children in your snack time? Do they have any say in menu planning for the week ahead, or choosing the snack for the day. Would they like to be involved in preparing food and clearing away at snack times? Ask them how they feel about the snacks on offer and suggest alternative ideas if they are unhappy or bored with current choices. Involve them in writing a shopping list or making the online order. Snacks can be a costly expenditure for your setting so be honest with the children on what can be afforded regularly or as a treat. This not only gathers children's views but also supports problems solving, decision making and financial budgeting.
9. Welcome pack – Using our 'Come Inside and Join our Club' pack https://www.clybiauplantcymru.org/members.asp , supports the children to develop a

Welcome pack that can be shared with new children attending the club. Ask children to consider all of the things they would have liked to have known about club on their first day. Allow the children to lead on this and support when required.

10. Funding for projects and resources – look at ways to include children in funding applications. Ask children for project ideas, what equipment and resources would they like to see – this can be done prior to sourcing funding, or with a funding source in mind. Could they write the application? Ask them to look through websites or catalogues to identify costs. Not only will children learn skills on budgeting and decision making they will also have a sense of ownership if the application is successful and equipment is purchased. It will also give you as playworker an idea of what children want to play at club.

Participation doesn't have to be onerous or extra work; it's about recognising the opportunities to seek children's views and value the importance of their input to the service you offer – one that's designed and delivered based on the ideas, values and needs of children using the service.

**Bonus tips for Playworkers when consulting with children:**

- Listen and pay attention to the children – take notes if necessary
- Don't allow adults to take over.
- Provide background information or reason for asking
- Agree a timescale with the children to act upon any changes to be made
- Give updates if things are taking longer than expected
- Provide honest feedback
- Make it fun – participation doesn't need to be boring!

**Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, [UNCRC] (parch at safbwyntiau'r plentyn)**
**Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi eu safbwyntiau, eu teimladau a'u dymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnyn nhw, a chael eu barn wedi ei hystyried a'i chymryd o ddifrif.**

Fel oedolion, rydym yn aml yn cymryd yn ganiataol fod angen ni wneud yr holl benderfyniadau dros blant, ond sut gwyddom ni fod ein penderfyniadau ni yr hyn y byddai plant yn ei ddewis? Wrth ddarparu gwasanaeth gofal plant neu ddarpariaeth gwaith chwarae, sut gwyddom ni fod yr hyn sydd yn cael ei gynnig i'r plant mor gyffrous ag y tybiwn ni'r oedolion? A oes unrhyw un wedi gofyn i'r plant?

Ystyriwch wahanol elfennau eich Lleoliad, amser byrbryd, cyfleoedd i chwarae, gweithgareddau, adnoddau, cyfarpar, staff, yr ystafell, y tu allan i'r adeilad, ceisiadau am ariannu, amserau casglu - mewn faint o'r pethau hyn y mae gan y plant lais ynddynt?

Mae ymchwil ac astudiaethau wedi profi bod plant, pan gânt eu hannog i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn teimlo eu bod o werth, yn cael gwrandawiad, ac wedi'u grymuso. Drwy gyfranogiad gall hyder a hunan-dyb y plant dyfu wrth iddyn nhw ddysgu sut i ddatrys problemau, cyfaddawdu, mynegi eu hanghenion a pharchu eu syniadau a'u safbwyntiau ei gilydd. Gall annog plant o oed ifanc i gymryd rhan mewn dod i benderfyniad helpu i ddatblygu a gwreiddio'r sgiliau hyn am oes.

Yn achos darpariaethau gofal plant a gwaith chwarae, mae'n bwysig rhoi gwerth ar gyfranogiad a'i weld fel ffordd o gael syniad o sut y mae'r plant yn gweld y ddarpariaeth, a sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn diwallu anghenion y plant.

Mae gweld cyfranogiad fel proses yn hytrach nag ymgynghoriad unigol yn sicrhau eich bod, fel darparydd, yn adolygu'r gwasanaeth yr ydych yn ei gynnig yn barhaus, ac yn gwreiddio pwysigrwydd llais y plentyn yn eich lleoliad.

Mae gosod llais y plentyn wrth galon eich darpariaeth yn dangos i blant eu bod yn cael gwrandawiad, a bydd yn eu hannog i ymgysylltu tra byddant yn teimlo eu bod o werth a'u bod yn cael eu parchu.

Ystyriwch y manteision i'ch Lleoliad. Sut ydych chi'n gwybod bod y plant yn hoffi ei fynychu? Sut ydych chi'n gwybod eu bod yn mwynhau byrbryd neu'r gweithgareddau yr ydych yn eu darparu. Beth fyddai'n ei wneud yn well? Yr unig ffordd i wybod mewn gwirionedd yw drwy ofyn. Dyma 10 ffordd i'ch helpu i gychwyn arni:

11. Safbwyntiau'r plant. - dylai safbwyntiau'r plant gael eu clywed drwy'r flwyddyn, nid yn unig fel ymarfer blynyddol; gall fod ar ffurf gweithgaredd wedi'i gynllunio pan fyddwch am i'r pant rannu eu safbwyntiau ar rywbeth arbennig, neu gall fod mor aml â phenderfynu pa fyrbryd i'w gael neu ba gêm i'w chwarae. Gwnewch focsys syniadau, neu wal syniadau lle gall y plant bostio eu barn. Cadwch hyn yn agored i bob pwnc, neu gofynnwch gwestiwn arbennig - a ydyn nhw'n hoffi'r clwb, yr adnoddau, y cyfarpar; beth nad ydyn nhw'n ei hoffi? Mae'n bwysig bod plant yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu barn am y pethau y maen nhw'n eu hoffi neu'n eu hanhoffi ar unrhyw adeg, yn hytrach na bod angen lle neu amser arbennig i rannu. Pan fyddwch yn ymgynghori ar bwnc arbennig, cofiwch ddweud wrth y plant pam eich bod yn gofyn, a gwnewch yn siŵr eich bod yn adrodd yn ôl i'r plant, gan fod yn onest ynghylch yr hyn y gellir - a'r hyn na ellir - eu newid. Cewch hyd i rai gweithgareddau a syniadau defnyddiol yn ein

pecyn adnodd Chwarae, Dysgu a Thyfu'n Iach, ac yng Ngham 10 ein pecyn Camu Allan, sydd ar gael i'n holl aelodau ar https://www.clybiauplantcymru.org/members.asp

12. Rheolau'r Clwb - Mae llunio Rheolau i'r Clwb yn ffordd dda iawn i'r plant drafod a chytuno ar sut, yn eu barn nhw, y dylai eu clwb edrych, a'r hyn sy'n ymddygiad derbyniol neu annerbyniol yn eu clwb. Cefnogwch nhw os bydd angen, ond ceisiwch gymryd cam yn ôl a'u gadael i drafod a chytuno rhyngddynt â'i gilydd. Efallai na fyddai rhai plant yn teimlo'n hyderus i leisio'u barn wrth bawb, felly cyflwynwch dechnegau megis 'pasio'r ffon' lle caniateir i ddim ond y person sy'n dal y ffon i siarad, neu awgrymwch ysgrifennu syniadau ar nodion post-it yn hytrach na gweiddi allan.
13. Trefn y dydd – a yw'ch lleoliad yn dilyn trefn ddyddiol gaeth neu a ydych yn rhoi lle i hyblygrwydd? Gall fod yn ddefnyddiol i gynllunio a theimlo'n drefnus, ond ystyriwch adael i'r plant ddewis trefn y dydd. Dechreuwch drwy ofyn i'r plant bleidleisio wrth iddyn nhw gyrraedd ar ba fyrbryd a fydd ar gael, neu ba gêm grŵp i'w chwarae. Gallech ymestyn hyn drwy ofyn i'r plant gynllunio'r wythnos o'u blaenau drwy ddewis themâu, gweithgareddau a byrbrydau am yr wythnos. Wrth gynnig i'r plant y cyfle i 'ddylunio'r' clwb byddan nhw'n dysgu am ddod i benderfyniadau ac yn cymryd perchnogaeth o'u clwb a sut y mae'n edrych. Ac fel lleoliad gallech hefyd fod yn sicr y bydd y plant yn edrych ymlaen at fod yno!
14. Teimladau'r plant - sut maen nhw'n teimlo? Mae gofyn i'r plant sut maen nhw'n teimlo wrth gyrraedd, neu ar adegau drwy gydol y sesiwn yn rhoi cyfle iddyn nhw fynegi eu teimladau a'u hemosiynau. Bydd yn gwneud iddyn nhw deimlo eu bod o werth, ac yn rhoi cyfle i chi eu cefnogi lle bydd angen; gall hyd yn oed roi arwydd i chi o sut mae'r plant yn teimlo am ddod i'r clwb? Cofiwch, mae'n bosibl mai chi yw'r unig oedolyn ym mywyd y plentyn sydd â'r amser i wrando.
15. Plant hŷn - gall plant hŷn fod yn fwy anodd ymgysylltu â nhw ar adegau, a gallent ymddangos wedi'u diflasu, felly ceisiwch gyflwyno cyfrifoldebau iddyn nhw, rhai megis helpu i weini'r byrbryd, arwain gweithgareddau a gemau grŵp. Gallech hyd yn oed ofyn iddyn nhw arwain unrhyw ymgynghoriadau a fydd genych - mae'n bosibl y byddai plant yn ateb yn fwy gonest i blentyn arall nag i oedolyn. Gofynnwch iddyn nhw beth yr hoffent eu cael yn y lleoliad, a beth a allai ei wneud yn fwy apelgar i'w grŵp oed nhw.
16. Yn chwilio am staff? Mae clybiau yn aml iawn yn anghofio y gall plant fod â rhan mewn recriwtio staff. Gofynnwch iddyn nhw beth fydden nhw'n hoffi ei gael gan weithiwr chwarae newydd a pha briodweddau a ddylai fod ganddyn nhw. Tynnwch amlinell o berson ar ddarn o bapur a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r pethau sydd yn eu tyb nhw yn briodweddau pwysig mewn Gweithwyr Chwarae. Ychwanegwch gwestiynau gan y plant at y ffurflen gais. Cynhwyswch nhw yn y broses o lunio rhestr fer, a hyd yn oed yn y cyfweliadau. Cefnogwch nhw i baratoi unrhyw gwestiynau a fyddai ganddyn nhw efallai, a gofynnwch am eu barn wrth wneud y penderfyniad terfynol. Gallech hefyd efallai ystyried gwahodd ymgeiswyr am swydd i'ch Lleoliad am Sesiwn flasu fel rhan o'r cyfweliad - cyfle perffaith i'r plant ofyn cwestiynau ac 'ystyried' yr ymgeisydd gorau i'r swydd!
17. Faint o ran y mae Penaethiaid ysgolion, Rheolwyr neu Aelodau Pwyllgor yn ei chwarae o ran gwrando ar farn y plant am y clwb? Awgryma rhai damcaniaethwyr y dylai'r plentyn sy'n chwarae ddylanwadu ar bob penderfyniad ynghylch y ddarpariaeth, megis adegau agor neu drefn arferol pethau, penderfyniadau a wneir yn aml gan rai nad ydynt ynglŷn â rhediad y clwb o ddydd i ddydd. Gwahoddwch y rhai hynny sy'n gwneud y penderfyniadau i mewn i'r clwb i drafod gyda'r plant y newidiadau a fydd yn cael eu gwneud, a rhoi cyfle i'r plant roi adborth iddyn nhw. Gellid gwneud hyn fel grŵp, neu wrth i'r plant chwarae.

18. Amser byrbryd - faint o ran sydd gan y plant yn eich amser byrbryd? A oes ganddyn nhw unrhyw lais, dyweder, mewn cynllunio'r fwydlen ar gyfer yr wythnos o'u blaenau, neu ddewis y byrbryd am y diwrnod. A fyddai'n dda ganddyn nhw fod ynghylch paratoi bwyd a chlirio pethau ar adegau byrbryd? Gofynnwch iddyn nhw sut y maen nhw'n teimlo am y byrbrydau sy'n cael eu cynnig ac i awgrymu syniadau eraill os ydyn nhw'n anniddig neu wedi'u diflasu gyda'r dewisiadau presennol. Cynhwyswch nhw yn y broses o ysgrifennu rhestr siopa neu wneud yr archeb ar-lein. Gall byrbrydau fod yn wariant drud i'ch lleoliad, felly byddwch yn onest gyda'r plant ar yr hyn y gellir ei fforddio'n rheolaidd neu fel trît.  Byddai hyn nid yn unig yn casglu ynghyd barn y plant ond hefyd yn eu helpu i ddatrys problemau, dod i benderfyniadau a chyllidebu ariannol.
19. Pecyn croeso - byddai defnyddio ein pecyn 'Dowch i Mewn, Ymunwch â'n Clwb' https://www.clybiauplantcymru.org/members.asp yn gymorth i'r plant ddatblygu pecyn Croeso y gellir ei rannu gyda phlant newydd a fydd yn mynychu'r clwb. Gofynnwch i'r plant ystyried yr holl bethau y bydden nhw wedi eisiau gwybod yn eu cylch ar eu diwrnod cyntaf nhw. Gadewch i'r plant arwain ar hyn, a chefnogwch yn ôl y gofyn.
20. Ariannu ar gyfer prosiectau ac adnoddau - edrychwch ar ffyrdd i gynnwys plant mewn ceisiadau am ariannu. Gofynnwch i'r plant am syniadau am brosiectau, pa gyfarpar ac adnoddau yr hoffent eu gweld - gellir gwneud hyn cyn mynd ati i gael hyd i ariannu, neu â ffynhonnell ariannu mewn golwg. A allen nhw ysgrifennu'r cais? Gofynnwch iddyn nhw edrych drwy wefannau neu gatalogau i ddarganfod y costau. Bydd y plant nid yn unig yn dysgu sgiliau cyllidebu a phenderfynu; bydd ganddyn nhw hefyd y synnwyr o berchnogaeth os bydd cais yn llwyddiannus a chyfarpar yn cael ei brynu. Bydd hefyd yn rhoi i chi, fel gweithiwr chwarae, syniad o'r hyn y mae'r plant am eu chwarae yn y clwb.

Nid oes yn rhaid i gyfranogaeth fod yn feichus nac yn waith ychwanegol; y mae ynglŷn â chydnabod cyfleoedd i geisio safbwyntiau'r plant a gwerthfawrogi pwysigrwydd eu mewnbwn i'r gwasanaeth yr ydych yn ei gynnig - un sydd wedi ei ddylunio a'i gyflenwi yn seiliedig ar syniadau, gwerthoedd ac anghenion y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**Awgrymiadau ychwanegol i Weithwyr Chwarae wrth iddyn nhw ymgynghori â'r plant:**

- Gwrandewch ar y plant a rhowch sylw iddyn nhw – cymerwch nodiadau os yw hynny'n angenrheidiol
- Peidiwch â gadael i oedolion gymryd drosodd.
- Rhowch wybodaeth gefndirol neu'r rheswm dros ofyn.
- Cytunwch, ar y cyd â'r plant, ar raddfa amser  i weithredu ar unrhyw newidiadau i'w gwneud.
- Rhowch ddiweddariadau os yw pethau'n cymryd yn hirach na'r disgwyl
- Rhowch adborth onest
- Gwnewch hyn yn hwyl – does dim rhaid i gyfranogi fod yn ddiflas!.